

Piecing together a solution: Homelessness amongst people with autism in Wales



Mae'r adroddiad yn cyflwyno sawl mater allweddol yn gysylltiedig â'r ffactorau unigryw sy'n gallu peri i rai pobl ag ASD dueddu at ddigartrefedd.

Ffactorau risg

Roedd y ffactorau risg a adroddwyd gan y cyfranogwyr yn cynnwys:

- (i) Er bod cymorth ar gael yn aml i bobl ag awtistiaeth cyniferydd deallusrwydd (IQ) is trwy Wasanaethau i Oedolion, canfuom fod y rhai hynny a chanddynt ddiagnosis o Awtistiaeth Gweithredu Lefel Uwch neu Syndrom Asperger (h.y. y rhai hynny nad oeddent yn adrodd bod ganddynt anhwylder dysgu sy'n cyd-ddigwydd) yn fwy tebygol o beidio â bod yn derbyn cymorth a bod â risg uwch o ddigartrefedd na'r boblogaeth gyffredinol
- (ii) Saith yn unig o'n 12 cyfranogwr oedd â diagnosis o ASD ar yr adeg digartrefedd. Canfuom fod oedi wrth wneud diagnosis ar yr adeg cyflwyno i'r gwasanaethau tai yn golygu nad oedd bobl bob amser yn gallu cael mynediad at y cymorth a'r gefnogaeth yr oedd arnynt eu hangen
- (iii) Canfuom dystiolaeth o gam-drin ariannol a chamfanteisio ar bobl ag ASD a oedd yn cyfrannu at eu risg digartrefedd.

Nodweddion ASD

Mae pobl ag ASD yng Nghymru yn wynebu'r un ffactorau risg ag unrhyw un arall o ran digartrefedd. Fodd bynnag, canfuom fod ffactorau strwythurol ac unigol unigryw sy'n cynyddu risg digartrefedd i bobl ag ASD. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- (i) Mae anawsterau synhwyrdd yn golygu bod cyflwyno eu hunain mewn swyddfa dai swnllyd a physur yn heriol a hyd yn oed yn gallu atal rhai pobl ag ASD rhag mynd yno o gwbl
- (ii) Gallai anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol beri i weithwyr tai proffesiynol gamddechongli ymddygiad unigolion ag ASD fel bod yn fwriadol negyddol ac ystyried ar gam ei fod yn wrthgymdeithasol, yn wrthwynebol neu'n heriol
- (iii) Mae heriau gwybyddol fel prosesu gwybodaeth yn arafach yn golygu bod rhai pobl ag ASD yn cael trafferth ateb llythyrau neu ddeall natur y broses ddigartrefedd. Mae heriau o ran rheoli arian – er enghraifft, cyllidebu, sefydlu a chynnal debydau uniongyrchol ar gyfer rhent, gwneud cais am fudd-daliadau a llenwi ffurflenni budd-daliadau – yn arwain at ffactorau risg ychwanegol ar gyfer digartrefedd.

Cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd

Yn aml, bydd gan bobl ag ASD ddiagnosis lluosog neu gyflyrau sy'n cyd-ddigwydd. Roedd gan wyth o'r 12 o bobl yn ein sampl gyflwr a oedd yn cyd-ddigwydd yn ychwanegol at ASD. Y cyflyrau mwyaf cyffredin a oedd yn cyd-ddigwydd yr adroddwyd arnynt gan y cyfranogwyr oedd iselder, pryder ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD). Gall problemau iechyd meddwl amharu ar allu unigolyn i gynnal ei denantiaeth a gall y cyflyrau hyn waethgu o ganlyniad i ddigartrefedd, gan gymhlethu'r anfantais.

Llety nad yw'n cyfateb i'r angen

Canfu'r ymchwil dystiolaeth fod rhai pobl ag ASD wedi'u lletya'n amhriodol, gan felly olygu bod eu tenantiaethau'n anghynaliadwy yn y tymor hir. Roedd rhai pobl ag ASD yn gwrthod cyflwyno eu hunain i'r awdurdod lleol hyd yn oed gan eu bod yn pryderu y byddent yn cael cynnig llety anaddas yn unig nad oedd yn ystyried eu hanghenion unigol.

Diweithdra a thlodi

Adroddir bod diweithdra'n her sylweddol i bobl ag ASD. Diweithdra a thlodi yw rhai o brif achosion digartrefedd³. Dywedodd y cyfranogwyr wrthym fod eu diweithdra'n cyfyngu'n ddifrifol ar eu dewisiadau tai. Ategwyd hyn gan randdeiliaid a ddywedodd wrthym fod diweithdra, ynghyd â sgiliau gwael o ran rheoli arian, yn gallu arwain at dalu costau tai yn hwyr ac yna digartrefedd i bobl ag ASD.

Chwalfa berthynas

Roedd chwalfa perthynas deuluol yn thema amlwg yn yr ymchwil; roedd y rhan fwyaf o'r bobl yn ein sampl wedi mynd yn ddiartref o gartref eu rhieni/teulu. Hefyd, trafododd llawer o'r cyfranogwyr anawsterau rhyngweithio cymdeithasol a pherthnasoedd ag eraill, gan gynnwys partneriaid a ffrindiau. Y brif argraff a gafwyd oedd bod diffyg rhwydweithiau cymorth cymdeithasol gan y cyfranogwyr a'u bod yn ymddangos yn ynysig iawn.

Profiad ymarferol pobl ag ASD o ddiartrefedd

Amlygodd yr astudiaethau achos a gyflwynwyd yn yr adroddiad faterion fel diagnosis hwyr, anawsterau cymdeithasol a chyfathrebu, a phwysigrwydd cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg o ran datrys digartrefedd a'i atal rhag digwydd yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, awgrymodd ein cyfweiliadau'n gryf bod diffyg ymwybyddiaeth o wasanaethau tai a gwasanaethau cysylltiedig ymhlith pobl ag ASD. I leiafrif o unigolion, roedd gwasanaethau wedi cael effaith arwyddocaol a disgrifir eu profiad yn gadarnhaol iawn. Er hynny, cafwyd adroddiadau hefyd o arfer gwael gyda staff yn gwrthod credu bod gan bobl ASD, staff anghymwynasgar, cyfathrebu aneffeithlon a chynigion o lety anaddas. Hyd yn oed pan ddatgelwyd ASD yr unigolyn, roedd rhai cyfranogwyr yn dal i wynebu problemau wrth gael cymorth gan adran dai eu hawdurdod lleol.

Argymhellion

Rydym wedi trefnu ein hargymhellion yn ôl themâu isod, gan gynnwys camau y byddwn yn eu cymryd ein hunain yn rhan o'n rhaglen waith yn y dyfodol.

Gweithwyr tai proffesiynol: Ymwybyddiaeth, derbyniad a hyfforddiant wedi'i deilwra i'r angen

- Argymhellwn hyfforddiant wedi'i deilwra i staff tai sy'n cynnwys amlygu ffactorau risg ASD (er enghraifft, mae'r gweithiwr yn amlygu nodweddion ASD ond nid yw'n rhoi diagnosis). Pan fydd risg wedi'i hamlygu, gellir cysylltu â gwasanaethau ASD

³ Shelter, (2007). Digartrefedd: Taflen ffeithiau Shelter

arbenigol gyda'r bwriad o gynorthwyo'r unigolyn ac eirioli ar ei ran pan fydd angen (boed hynny i gael diagnosis neu gynorthwyo wrth gysylltu â'r adran dai).

- O fewn Dewisiadau Tai, mae ymwybyddiaeth staff o ASD yn arbennig o bwysig yn sgil grymoedd newydd awdurdodau lleol i gyflawni dyletswyddau digartrefedd ar gyfer 'methiant i gydweithredu'. Mae'n bosibl y gallai'r ddyletswydd newydd hon fod yn ffactor risg newydd i bobl ag ASD oni bai bod staff yn cael eu hyfforddi'n briodol. I'r gwrthwyneb, mae ymwybyddiaeth o'r cyflwr yn debygol o gynorthwyo staff Dewisiadau Tai i amlygu datrysiadau tai mwy cynaliadwy.
- Yn ogystal â thrwy hyfforddiant, gellir cynyddu ymwybyddiaeth trwy bolisi a chanllawiau tai, gan gynnwys y Cod Canllawiau Digartrefedd. Ar hyn o bryd, mae'r Cod yn cyfeirio at y deunydd canllaw ASD, ond argymhellwn fod y Canllawiau'n ymdrin ag ASD fel grŵp ar wahân, ochr yn ochr â phobl ag anabledau dysgu.
- Cydnabyddwn fod angen monitro asesiadau awdurdodau lleol o bobl 'agored i niwed' o dan y ddeddf Newydd er mwyn gwerthuso a yw'n fwy cynhwysol o ran pobl ag ASD. Bydd hyn yn ffurfio rhan o ymchwil ddilynol ar gyfer ein rhaglen waith.
- Argymhellwn hefyd fod y Cerdyn Rhybudd Awtistiaeth Cenedlaethol yn cael ei gydnabod mewn gwasanaethau tai yng Nghymru: <http://www.autism.org.uk/card>.

Cyflwyno yn y swyddfa dai

- O ganlyniad i'r problemau synhwyrdd sy'n wynebu pobl ag ASD, dylid cynnig ystafell dawel a phreifat i ddefnyddwyr gwasanaeth ar gyfer eu cyfweiliad tai.
 - Mae angen gwella cyfathrebu, o bosibl trwy newid y dull cyfathrebu presennol. Gall heriau gwybyddol olygu bod rhai pobl ag ASD yn prosesu gwybodaeth yn arafach. Felly, dylai gwasanaethau sicrhau bod cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig yn briodol, yn rhydd rhag jargon ac yn eglur. Gallai gwefan fel Speak Easy (<http://www.easy-read-online.co.uk/>) fod yn ffordd ddefnyddiol o esbonio materion tai cymhleth i bobl ag ASD (fel yr argymhellwyd gan unigolyn ag ASD a gymerodd ran yn yr ymchwil).
 - Er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a'r gefnogaeth y mae ganddynt yr hawl iddynt, argymhellwn fod pobl ag ASD sy'n amlygu eu hunain yn ddigartref yn cael mynediad at eiriolwr a fydd yn gallu cyfathrebu ar eu rhan, os bydd angen.
 - Pan fydd pobl ag ASD yn cael eu lletya gan yr awdurdod lleol, argymhellwn fod eu tenantiaeth yn cael ei dilyn chwe mis yn ddiweddarach er mwyn sicrhau bod unrhyw broblemau'n cael eu hamlygu a'u datrys yn gynnar.
 - Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau na ddylai awdurdodau lleol ystyried bod pobl ag ASD yn fwriadol ddigartref.
-

- Argymhellwn fod elusennau ASD, sefydliadau tai a sectorau statudol fel Cefnogi Pobl a meddygon teulu yn cydweithio'n agosach. Dylai hyn gynnwys yr amgylchedd adeiledig hefyd (llety sy'n briodol ac wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn). Bydd atgyfeiriadau di-dor o'r adran dai i arweinwyr ASD lleol a gwasanaethau cysylltiedig yn sicrhau bod pobl ag ASD yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen i gael mynediad at dai.

Nodweddion ASD, diagnosis, cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd a hyfforddiant sgiliau byw'n annibynnol

- Roedd diffyg cymorth, yn enwedig ymhlith y rhai hynny ag ASD gweithredu lefel uwch, yn thema gyffredin yn yr ymchwil. Heb gymorth, roedd pobl yn agored i broblemau ariannol, yn colli'r cyfle i hawlio budd-daliadau, a hyd yn oed yn dioddef camfanteisio. Mae angen targedu mwy o gymorth tuag at y rhai hynny yr ystyrir bod ganddynt ASD gweithredu lefel uwch heb anabledd dysgu.
 - Byddai unigolion ag ASD yn elwa ar fwy o gymorth i ddatblygu ystod o sgiliau ac adnoddau, fel sgiliau byw'n annibynnol; rheoli tenantiaeth; sgiliau rhyngweithio cymdeithasol; a mwy o wytnwch i ymdopi â sefyllfaoedd anodd.
 - Amlygodd y dadansoddiad thematig fod unigolion ag ASD yn teimlo nad oeddent yn ymwybodol o'r ystod o wasanaethau sydd ar gael iddynt. Un o'n hargymhellion allweddol yw'r angen i gynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau ar gyfer pobl ag ASD trwy roi gwell cyhoeddusrwydd i'r cymorth sydd eisoes ar gael a'r ffordd orau i unigolion ag ASD gael mynediad ato. Mae angen i bobl ag ASD wybod beth i'w wneud pan fyddant yn wynebu argyfwng tai er mwyn atal digartrefedd. Dylent fod yn ymwybodol o sefydliadau fel Shelter Cymru a'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, yn ogystal â gwasanaethau lleol fel Siop Un Stop Awtistiaeth Caerdydd.
 - Rydym wedi amlygu'r angen i daflen atal digartrefedd gael ei datblygu ar y cyd â phobl sydd ag ASD, i gynorthwyo pobl ar y sbectrwm sy'n ddigartref neu sydd mewn tai amhriodol. Mae angen i'r daflen hon gael ei gosod mewn fformat hygyrch a dylai gael ei dosbarthu gan ystod o wasanaethau tai ac ASD. Bydd y prosiect hwn yn ffurfio rhan o'n cynllun gwaith yn y dyfodol.
-